Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Hysbysiadau hwylus

## Camau yn arwain at refferendwm ar fwy o bwerau
## Gwybodaeth ddiweddaraf: 17 Rhagfyr 2010

## Crynodeb

Mae cytundeb **Cymru'n Un**, sef cytundeb y glymblaid rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru, yn cynnwys ymrwymiad i:

> … symud ymlaen cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl i gael canlyniad llwyddiannus mewn refferendwm ar bwerau deddfu llawn o dan Ran IV (o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*[1] ['Deddf 2006']) ar ddiwedd y tymor Cynulliad hwn neu cyn hynny. [2]

Ers mis Chwefror 2010, mae'r Cynulliad Cenedlaethol, Senedd y DU ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cwblhau nifer o brosesau a oedd yn ofynnol cyn y gellid cynnal refferendwm. Yn sgil hyn, cynhelir refferendwm ar fwy o bwerau i'r Cynulliad ar 3 Mawrth 2011.

Os bydd y rhan fwyaf o bobl yn pleidleisio o blaid symud ymlaen at Ran 4 o Ddeddf 2006 mewn refferendwm o'r fath, byddai gan y Cynulliad Cenedlaethol y rhyddid i ddeddfu yn y meysydd datganoledig hynny a amlinellir yn Atodlen 7 i Ddeddf 2006, heb fod angen caniatâd gan San Steffan i wneud hynny.

Mae'r hysbysiad hwylus hwn yn crynhoi'r camau a gymerwyd ers mis Chwefror 2010 i gyflawni'r ymrwymiad sydd yng nghytundeb Cymru'n Un, ac yn darparu manylion ynghylch cyfnod y refferendwm, a gychwynodd ar 16 Rhagfyr 2010.

## Darpariaethau yn ymwneud â'r refferendwm yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006

Rheolir y prosesau sy'n ymwneud â chynnal refferendwm a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i Ran 4 o Ddeddf 2006 ddod i rym gan yr adrannau a ganlyn yn Neddf 2006, ynghyd ag Atodlen 6:

- Mae Adran 103 yn ymdrin â'r prosesau a fyddai'n ei gwneud yn bosibl cynnal refferendwm yng Nghymru i benderfynu a ddylai Rhan 4 o Ddeddf 2006 ddod i rym.
- Mae Adran 104 yn **nodi'r prosesau** sy'n galluogi Prif Weinidog Cymru neu un o Weinidogion Cymru i roi cynnig gerbron i gynnal refferendwm i benderfynu a ddylai

[1] Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32)
[2] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru*

Rhan 4 o Ddeddf 2006 ddod i rym. Yn benodol, os yw o leiaf 40 o Aelodau'r Cynulliad yn cymeradwyo'r cynnig, mae'n ofynnol bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru, o fewn 120 niwrnod, naill ai'n gosod Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor gerbron Senedd y DU i gychwyn y broses o gynnal refferendwm, neu'n cyflwyno hysbysiad ffurfiol o'r ffaith ei bod yn gwrthod gwneud hynny, gan gynnwys eglurhad o'i phenderfyniad.

## Datblygiadau hyd yn hyn

Ar **9 Chwefror 2010**, cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol yn unfrydol ar gynnig (y cyfeirir ato'n aml fel 'cynnig sbardun') a gynigwyd gan y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, sef "y dylid gwneud argymhelliad i Ei Mawrhydi yn y Cyngor i wneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 103(1) o'r Ddeddf."[3]

Yn dilyn hyn, anfonwyd hysbysiad ffurfiol o'r penderfyniad (sy'n ofynnol o dan adran 104(2) o Ddeddf 2006) ar ffurf llythyr gan y Prif Weinidog at y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS, sef Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, ar **17 Chwefror 2010**.[4] Ymatebodd yr Ysgrifennydd Gwladol i'r llythyr hwn ar **20 Chwefror 2010**, a chadarnhaodd ei fod wedi dweud wrth ei swyddogion i gyflawni gwaith paratoadol ar yr offerynnau cyfreithiol sydd eu hangen er mwyn cynnal refferendwm.[5] Mae Atodlen 6 i Ddeddf 2006 yn datgan y dylai'r gwaith paratoadol hwn gynnwys cytuno ar:

- ddyddiad y refferendwm;
- y cwestiwn a gaiff ei ofyn, ac unrhyw ddatganiad esboniadol;
- swyddogaeth y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â hysbysu'r cyhoedd am y refferendwm;
- y trefniadau ar gyfer cynnal y bleidlais;
- y trefniadau ar gyfer cyfrif y pleidleisiau;
- y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r canlyniad; a'r
- trefniadau ar gyfer ariannu'r gost o gynnal y refferendwm.

### Etholiad Cyffredinol y DU a'r Llywodraeth newydd

Yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol a gynhaliwyd ar **6 Mai 2010**, cyhoeddodd y glymblaid newydd rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei rhaglen lywodraethol ei hymrwymiad i gyflwyno refferendwm ar ddatganoli pellach yng Nghymru yn ystod oes y Senedd bresennol.[6]

---

[3] Y Cofnod, p73, 9 Chwefror 2010 [fel ar 12 Gorffennaf]
[4] *Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru*, Llythyr a anfonwyd ar 17/02/2010 gan Carwyn Jones AC at Peter Hain AS ynghylch yr hysbysiad o'r cynnig, o dan adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, DEP2010/0506 (p1)
[5] *Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru*, Llythyr a anfonwyd ar 20/02/2010 gan Peter Hain AS at Carwyn Jones AC ynghylch yr hysbysiad o'r cynnig, DEP2010/0506 (p2)
[6] Llywodraeth y DU, *The Coalition : our programme for government*, Mai 2010, p28 [fel ar 12 Gorffennaf 2010]

Ar **15 Mehefin 2010**, ysgrifennodd y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, yr Ysgrifennydd Gwladol presennol, at Brif Weinidog Cymru i esbonio pam na lwyddwyd i osod Gorchymyn drafft gerbron dau Dŷ'r Senedd o fewn y terfyn amser gwreiddiol, sef 120 niwrnod:

> The principal reason I am unable to lay the draft Order within the period ending on 17 June 2010 is that due to circumstances I inherited from the previous administration, I have not been able to fulfil my duty set out in section 104(4) of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 to consult the Electoral Commission on the wording of the referendum question, and as a result the Electoral Commission has not yet tested and reported on the intelligibility of the question. Your decision that the date and question should not be considered until after the General Election has meant that we have not yet submitted a question to the Electoral Commission, which has confirmed that it will need at least 10 weeks to carry out its assessment and then report. This inevitably leads to a position where we cannot lay the referendum Order by the 17 June 2010 deadline.[7]

Yn yr un llythyr, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol y byddai'r refferendwm yn cael ei gynnal cyn diwedd chwarter cyntaf 2011:

> Both you and I and the Deputy First Minister have discussed a possible timetable for the referendum, taking account of all the stages that need to be gone through to prepare for it. In the light of our discussion, we have agreed that we should aim for a referendum to be held before the end of the first quarter of 2011.[8]

### Ymgynghoriad ar eiriad cwestiwn y refferendwm

Yn unol â'r hyn sy'n ofynnol o dan adran 104 o *Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000*[9], a'r hyn sydd wedi'i nodi ym mharagraff 3(3) o Atodlen 6 i Ddeddf 2006, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol at y Comisiwn Etholiadol ar **23 Mehefin 2010**, gan ofyn iddo leisio barn ynghylch pa mor ddealladwy yw'r cwestiwn a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer y refferendwm arfaethedig, ynghyd â'r datganiad sy'n ei rhagflaenu.[10] Dyma'r datganiad sy'n rhagflaenu'r cwestiwn:

> Ar hyn o bryd, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol (y Cynulliad) y pwerau i ddeddfu ar gyfer Cymru ar rai pynciau sydd wedi'u datganoli. Mae'r meysydd sydd wedi'u datganoli yn cynnwys iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, llywodraeth leol a'r amgylchedd. Caiff y Cynulliad ennill mwy o bwerau i ddeddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli trwy gael cytundeb gan Senedd y Deyrnas Unedig, a hynny fesul pwnc. Os bydd y rhan fwyaf o bobl yn pleidleisio 'Ydw' yn y refferendwm hwn, bydd y Cynulliad yn ennill pwerau i ddeddfu ar bob pwnc yn y meysydd sydd wedi'u datganoli. Os bydd y rhan fwyaf yn pleidleisio 'Nac Ydw', bydd y trefniadau presennol—sef trosglwyddo'r hawl i ddeddfu bob yn damaid, gyda chytundeb Senedd y Deyrnas Unedig bob tro—yn parhau.[11]

---

[7] *Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru,* llythyr a anfonwyd ar 15 Mehefin 2010 gan Cheryl Gillian AS at Carwyn Jones AC ynghylch y refferendwm ar fwy o bwerau deddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. DEP2010/1304

[8] ibid

[9] Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (c.41)

[10] Swyddfa Cymru, *Datganiad i'r Wasg: Ysgrifennydd Cymru yn anfon cwestiwn drafft y refferendwm i'r Comisiwn Etholiadol i'w ystyried*, 23 Mehefin 2010 [fel ar 12 Gorffennaf 2010]

[11] Swyddfa Cymru, *Y datganiad a'r cwestiwn arfaethedig : Refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru* [fel ar 18 Awst 2010]

Ar **20 Mai 2010**, cynigodd y Prif Weinidog gwestiwn a rhagarweiniad amgen ar ran Llywodraeth Cymru[12]:

> Ar hyn o bryd mae'r Cynulliad yn cael deddfu ar rai pethau, ond nid ar bethau eraill, sy'n effeithio ar bobl Cymru yn unig. Mae Senedd y Deyrnas Unedig wedi penderfynu y dylai'r Cynulliad gael deddfu ar bopeth sy'n ymwneud â meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru.
>
> Ond dim ond os bydd pleidleiswyr yng Nghymru yn cefnogi hynny mewn refferendwm y gall hynny ddigwydd. Mae'r meysydd sydd wedi'u datganoli yn cynnwys iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, tai, addysg a llywodraeth leol. Ni fyddai modd i'r deddfau ymwneud â nawdd cymdeithasol, amddiffyn a materion tramor. Ydych chi am i'r Cynulliad gael y pŵer yn awr i ddeddfu ar yr holl feysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru?

Fodd bynnag, mae adran 104(4) o *Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000* yn nodi y bydd y Comisiwn Etholiadol yn lleisio barn ar ba mor ddealladwy yw cwestiwn refferendwm dim ond pan fydd y cwestiwn hwnnw'n cael ei gyflwyno gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Nid yw'n ofynnol ar y Comisiwn, felly, i leisio barn ar gwestiynau sy'n cael eu cynnig gan unigolion a sefydliadau eraill (gan gynnwys y cwestiwn uchod a gynigwyd gan y Prif Weinidog).

Yn ôl ei feini prawf ar gyfer asesu'r cwestiwn, roedd y Comisiwn Etholiadol yn disgwyl cyhoeddi sylwadau ynghylch pa mor ddealladwy oedd y cwestiwn refferendwm arfaethedig tua 10 wythnos ar ôl cael ei hysbysu am eiriad y cwestiwn.[13] Cyhoeddwyd adroddiad y Comisiwn ar **2 Medi 2010**.[14]

Er mwyn asesu'r cwestiwn, gwnaeth y Comisiwn Etholiadol waith ymchwil mewn perthynas â phleidleiswyr, cafodd gyngor gan arbenigwyr yn y maes hygyrchedd ac iaith eglur a gofynodd i ddarpar-ymgyrchwyr, gwleidyddion a phobl eraill â diddordeb i fynegi barn ar eiriad y cwestiwn. Yng nghrynodeb yr adroddiad, dywedodd y Comisiwn:

> Mae ein hymchwil o bleidleiswyr wedi canfod materion gyda'r cwestiwn drafft a fyddai wedi bod yn anodd eu rhagweld heb ei brofi'n drylwyr. Un o'r brif sialensiau i'r rheini a oedd wedi drafftio'r cwestiwn oedd cymhlethdod; mater o broses gyfansoddiadol yw pwnc y refferendwm, sydd ddim yn gyfarwydd i'r rhan fwyaf o bobl. Nid oes llawer o'r cyhoedd yn ymwybodol o'r refferendwm, beth yw pwnc y refferendwm, neu hyd yn oed beth yw refferendwm. Cyfrannodd y diffyg ymwybodaeth hyn yn fawr at y problemau yr oedd y rhai hynny a gymrodd ran yn ein hymchwil yn wynebu wrth ateb y cwestiwn. Ar ôl darllen y cwestiwn, dywedodd y rhan fwyaf eu bod nhw wedi pleidleisio yn unol â'u bwriadon, ond roedd gan lawer ganfyddiad anghywir o hyd o bwnc y refferendwm ac o'r canlyniadau posib. Dywedodd nifer fechan o bobl, pe byddent wedi deall gwir ystyr y cwestiwn a chwmpas y pleidleisiau roeddynt yn pleidleisio drostynt, y byddent wedi pleidleisio'n wahanol.[15]

Dangosodd adroddiad y Comisiwn Etholiadol fod angen ail-ddrafftio geiriau, cymalau a therminoleg penodol, fel bod pleidleiswyr yn deall y cwestiwn. Roedd y Comisiwn o'r farn y

---

[12] Datganiad gan Brif Weinidog Cymru, *Referendum Update*, 20 Mai 2010 [fel ar 1 Hydref 2010]

[13] Y Comisiwn Etholiadol, *Ein dull o asesu pa mor ddealladwy yw'r cwestiwn refferendwm*, Tachwedd 2009 [fel ar 12 Gorffennaf 2010]

[14] Y Comisiwn Etholiadol, *Refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adroddiad ar farnau'r Comisiwn Etholiadol ar y cwestiwn refferendwm arfaethedig*, Medi 2010.

[15] Y Comisiwn Etholiadol, *Refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adroddiad ar farnau'r Comisiwn Etholiadol ar y cwestiwn refferendwm arfaethedig, Crynodeb Gweithredol*, Medi 2010.

dylai'r cyflwyniad fod yn llai dwys o ran geiriad, a bod yn rhaid defnyddio fformat mwy hygyrch a haws i'w ddarllen. Awgrymodd y Comisiwn Etholiadol eiriad amgen:

> **Cynulliad Cenedlaethol Cymru: yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd**
>
> Mae gan y Cynulliad y pwerau i lunio deddfau mewn 20 maes pwnc, megis:
>
> - amaethyddiaeth, addysg, yr amgylchedd, iechyd, tai, llywodraeth leol
>
> Mae'r Cynulliad yn gallu llunio deddfau ar **rai** materion ym mhob maes pwnc ond nid ar faterion eraill. Er mwyn llunio deddfau ar unrhywun o'r materion eraill hyn, mae'n rhaid i'r Cynulliad ofyn am gytundeb Senedd y DU. Yna, mae Senedd y DU yn penderfynu bob tro a gaiff y Cynulliad lunio'r deddfau hyn neu beidio.
>
> Ni all y Cynulliad lunio deddfau mewn meysydd pwnc fel amddiffyn, trethi neu fudd-daliadau lles, beth bynnag fo canlyniad y bleidlais hon.
>
> **Os bydd y rhan fwyaf o bleidleiswyr yn pleidleisio 'ydw'**
>
> Bydd y Cynulliad yn gallu llunio deddfau ar bob mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau ynddynt, heb orfod cael cytundeb Senedd y DU.
>
> **Os bydd y rhan fwyaf o bleidleiswyr yn pleidleisio 'nac ydw'**
>
> Bydd yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn parhau.
>
> **Cwestiwn**
>
> A ydych yn dymuno i'r Cynulliad allu llunio deddfau ar bob mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau ynddynt?
>
> **Ydw**
>
> **Nac ydw**

Croesawodd yr Ysgrifennydd Gwladol yr adroddiad:

> I am grateful to the Electoral Commission for publishing today's report and for their comments on the intelligibility of the referendum question and preceding statement. It is a thorough report and an important part of the process in ensuring people understand what they are being asked to vote on.[16]

Yn ystod sesiwn cwestiynau Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin ar **8 Medi 2010**, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

> I am very grateful to the Electoral Commission for its report and the 10 weeks of examination that it gave to the question that was designed by the project board. On Monday I worked with the First Minister and the Deputy First Minister, and I have considered its findings. We have all agreed that we should accept its findings and take forward the preamble and the question that has been put forward, on an objective and independent basis, by the Electoral Commission, and I shall be making a further statement to Parliament.[17]

---

[16] Swyddfa Cymru, *Ysgrifennydd Cymru yn croesawu Adroddiad y Comisiwn Etholiadol ynghylch Cwestiwn y Refferendwm*, Medi 2010 [fel ar 1 Hydref 2010]
[17] Trafodaeth yn Nhŷ'r Cyffredin, 8 Medi 2010, c301

## Dyddiad y refferendwm

Ar **21 Medi 2010**, ysrifennodd Prif Weinidog Cymru a'r Dirprwy Brif Weinidog at yr Ysgrifennydd Gwladol gan ddatgan yr hoffent gynnal y refferendwm ar **3 Mawrth 2010.**[18]

Ymatebodd yr Ysgrifenydd Gwladol drwy ddweud:

> I will do everything possible to accommodate that date and intend to lay the Referendum Order before Parliament next month.

Yn y cyfamser, bydd swyddogion Swyddfa Cymru'n parhau i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru i wireddu'r ymrwymiad i gynnal refferendwm erbyn diwedd chwarter cyntaf 2011.[19]

## Y Gorchmynion ar y Refferendwm

Yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y cyd â'r Comisiwn Etholiadol, mae'n ofynnol bod yr Ysgrifenydd Gwladol (o dan adranau 104(3)(a) a 104(3)(b) o Ddeddf 2006) yn gosod Gorchymyn drafft gerbron dau Dŷ Senedd y DU i'w gymeradwyo, neu'n hysbysu Prif Weinidog Cymru o'r ffaith ei bod yn gwrthod gwneud hyn, gan nodi'r rhesymau dros ei phenderfyniad. Yn ôl Atodlen 6 i Ddeddf 2006, rhaid i'r Gorchymyn hwn gynnwys:

- Y cwestiwn a gaiff ei gynnwys ar y papur pleidleisio;
- Dyddiad y refferendwm;
- Cyfnod y refferendwm; a
- Darpariaethau ar gyfer ariannu'r gwaith o gynnal y refferendwm.

Gall y Gorchymyn hefyd gynnwys yr eitemau a ganlyn, yn ôl disgresiwn yr Ysgrifennydd Gwladol:

- Unrhyw ragarweiniad i'r cwestiwn sydd i'w gynnwys ar y papur pleidleisio;
- Unrhyw ddarpariaeth ar gyfer neu sy'n gysylltiedig â chyfuno'r refferendwm ag unrhyw etholiad neu refferendwm arall; a
- Darpariaeth a fyddai'n rhoi'r awdurdod i'r Comisiwn Etholiadol, neu a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddo, wneud pethau er mwyn annog pobl i bleidleisio yn y refferendwm.

Mae'n ofynnol bod yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd (o dan adran 104(4) o Ddeddf 2006) yn gosod Gorchymyn drafft gerbron y Cynulliad.

Mae'n ofynnol bod cynnig ar y Gorchymyn drafft yn cael ei gymeradwyo drwy fwyafrif syml gan ddau Dŷ'r Senedd, a bod cynnig arno yn y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei gymeradwyo gan 40 o Aelodau'r Cynulliad o leiaf (fel y nodir o dan adrannau 103(4) a

[18] Gwefan Llywodraeth Cymru, *Taith y Refferendwm – Ysgrifennydd Gwladol Cymru* [fel ar 1 Hydref 2010]
[19] Swyddfa Cymru, *Yr Ysgrifennydd Gwladol yn Derbyn y Dyddiad a Ffafrir gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer cynnal y Refferendwm*, 21 Medi 2010 [fel ar 1 Hydref 2010]

103(5) o Ddeddf 2006).

Os caiff ei gymeradwyo, rhaid i'r Gorchymyn gael ei wneud gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor. Rhaid gwneud hyn yn ystod cyfarfod yn y Cyfrin Gyngor, a gynhelir yn fisol fel arfer.

Ar **21 Hydref 2010,** gosododd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillian AS, dri Orchymyn drafft gerbron y Senedd.[20]:

- ***Y Gorchymyn Refferendwm drafft (Gorchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm, ac ati) 2010)*** ("y Gorchymyn Refferendwm drafft") [Saesneg yn unig].
- ***Y Gorchymyn Cyfyngiadau Treuliau drafft (Gorchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Cyfyngu ar Dreuliau'r Refferendwm, ac ati) 2010)*** ("y Gorchymyn Cyfyngiadau Treuliau") [Saesneg yn unig].
- ***Gorchymyn Atodlen 7 drafft (Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Diwygio Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) 2010)*** ("Gorchymyn Atodlen 7 drafft") [Saesneg yn unig].

Cyflwynodd ddatganiad ysgrifenedig i'r Senedd hefyd, ***National Assembly for Wales: Referendum on law-making powers***, sy'n cadarnhau ei bod wedi gosod y Gorchmynion hyn. Mae Mrs Gillian hefyd wedi gosod copi o adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar ei farn ar y cwestiwn a gynigir ar gyfer y refferendwm yn llyfrgelloedd dau Dŷ'r Senedd. Mae wedi derbyn argymhellion y Comisiwn Etholiadol ar eiriad cwestiwn y refferendwm, sydd wedi'i nodi uchod.

Mae'r *Gorchymyn Refferendwm drafft* yn gwneud y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth mewn perthynas â chynnal a rhedeg y refferendwm. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer dyddiad y refferendwm (**3 Mawrth 2010**); cwestiwn y refferendwm; sut y gall pobl bleidleisio yn y refferendwm (gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy), a rheolau'r refferendwm (sut y bydd y refferendwm yn cael ei redeg a'i weinyddu, gan gynnwys sut y caiff y pleidleisiau eu cyfrifo). Mae hefyd yn cynnwys atodiad o ffurflenni, gan gynnwys y papur pleidleisio, cardiau pleidleisio swyddogol, a datganiadau ar gyfer pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy.

Mae'r *Gorchymyn Cyfyngiadau Treuliau* yn nodi'r terfynau gwario ar gyfer y cyfranogwyr cymeradwy sy'n cymryd rhan yn yr ymgyrch. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gosod y rhain ar y lefel a argymhellir gan y Comisiwn Etholiadol.

Mae'r Gorchymyn i ddiwygio Atodiad 7 yn diweddaru Atodiad 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.* Mae'r Atodlen yn rhestru'r pynciau y gall y Cynulliad ddeddfu arnynt os bydd

[20] Swyddfa Cymru, *Ysgrifennydd Cymru yn Cyflwyno Gorchymyn am Refferendwm ar 3 Mawrth, Datganiad i'r Wasg, 14 Hydref 2010* [fel ar 26 Hydref 2010]

y bleidlais 'Ydw' yn llwyddiannus. Mae'r newidiadau i'r Atodlen yn ystyried y pwerau y mae'r Cynulliad wedi'u cael ers i'r Atodlen gael ei diweddaru ddiwethaf yn 2007. Yn benodol, bwriedir sicrhau nad yw'n peidio â chynnwys cymhwysedd a roddwyd i'r Cynulliad yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig adroddiad yn ystyried y Gorchymyn hwn ar 18 Tachwedd 2010[21].

Trafodwyd a chymeradwywyd y *Gorchymyn Refferendwm* a'r *Gorchymyn Atodlen 7* yn y Cynulliad ar **9 Tachwedd**. Yn dilyn hynny, cawsant eu cymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin ar **23 a 24 Tachwedd.** Cymeradwywyd y ddau Orchymyn hefyd gan Dŷ'r Arglwyddi ar **25 Tachwedd.**

Cymeradwywyd y *Gorchymyn Cyfyngiadau Treuliau* gan Dŷ'r Cyffredin ar **24 Tachwedd** a chan Dŷ'r Arglwyddi ar **25 Tachwedd.** Bydd yn cael ei wneud yn awr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Nid oes angen cymeradwyaeth y Cynulliad ar gyfer y Gorchymyn hwn.

Atebodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru gwestiynau yn ymwneud â'r refferendwm yn ystod sesiwn cwestiynau Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Rhagfyr 2010. Wrth ateb cwestiwn gan David Amess AS ynghylch a yw canlyniad y refferendwm wedi cael ei ystyried, dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru:

> Clearly, a yes vote will transfer primary powers to the Assembly over those areas already devolved, and that will mean a changed relationship with Westminster, including the impact of legislation made in Cardiff on this House and this legislature. If there is a no vote, we will retain the existing legislative process. In that eventuality, I will examine how we can make the system more effective and more efficient, because it is broadly agreed that the legislative competence order process, as it currently operates, is cumbersome and time consuming.[22]

## Cyfnod y Refferendwm

Cychwynodd cyfnod y refferendwm yn swyddogol ar **16 Rhagfyr 2010**, sef y dyddiad y gwnaed Gorchymyn Drafft y Refferendwm gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor. Wrth groesawu cychwyn cyfnod y refferendwm, dywedodd Prif Weinidog Cymru:

> Mae'r ffaith bod y Frenhines wedi cymeradwyo'r gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn golygu ein bod ni'n gallu mynd ati heb oedi i baratoi ar gyfer y refferendwm.[23]

Gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad ysgrifenedig hefyd yn amlinellu'r cyfyngiadau statudol a fydd ar Lywodraeth Cymru yn ystod y diwrnodau cyn y bleidlais. Cadarnhaodd na fyddai Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag unrhyw ymgyrch gyhoeddusrwydd ynghylch y refferendwm drwy gydol cyfnod y refferendwm:

> Amlinellir y cyfyngiadau statudol ar gyhoeddusrwydd y llywodraeth ynghylch refferenda yn adran 125 Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Bydd y cyfyngiadau statudol hyn yn gymwys am 28 diwrnod cyn y bleidlais. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi

[21] Y Pwyllgor Materion Cymreig, *The proposed amendment of Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006: Second Report of Session 2010-11*, 22 Tachwedd 2010, HC603 2010-2011
[22] Trafodaeth yn Nhŷ'r Cyffredin, 8 Rhagfyr 2010, c295
[23] Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru, *Cyfnod y refferendwm yn dechrau wrth i Orchymyn gael ei wneud gan y Frenhines*, 16 Rhagfyr 2010 [fel ar 17 Rhagfyr 2010]

> cytuno gyda'r Comisiwn Etholiadol na fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgymryd ag unrhyw ymgyrch gyhoeddusrwydd ynghylch y refferendwm. Bydd hyn yn gymwys o heddiw ymlaen, hyd at a chan gynnwys y diwrnod pleidleisio. Y pleidiau gwleidyddol, mudiadau eraill ac unigolion fydd yn gwneud y dadleuon o blaid ac yn erbyn yn ystod yr ymgyrch.[24]

Bydd gan y rheiny sydd am ymgyrchu a gwario symiau sylweddol o arian (£10,000 neu fwy) yn ystod cyfnod y refferendwm hawl i wneud cais i'r Comisiwn Etholiadol i gael eu cofrestru'n gyfranogwyr cymeradwy, a bydd eu gwariant yn cael ei reoleiddio. Byddai gan gyfranogwyr cymeradwy bump wythnos i wneud cais i arwain yr ymgyrch 'Ie' neu'r ymgyrch 'Na'. Bydd y Comisiwn Etholiadol yn penderfynu a yw'n gallu dynodi grwpiau ymgyrchu arweiniol erbyn **2 Chwefror 2011**. Mae'n rhaid i'r Comisiwn unai ddynodi grwpiau ar ddwy ochr yr ymgyrch neu beidio â phenodi neb. Os caiff grwpiau eu dynodi, byddant yn gymwys i hawlio cymorth ariannol a chymorth arall, yn unol â *Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000*. Y Comisiwn Etholiadol fydd yn penderfynu cyfanswm y cymorth ariannol a fydd ar gael.

## Rhagor o wybodaeth

**Nodwch y caiff yr hysbysiad hwn ei ddiweddaru'n rheolaidd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn ymwneud â'r refferendwm ar fwy o bwerau i'r Cynulliad, unwaith y bydd y manylion hyn yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth y DU.**

**Mae'r dyddiad a nodir ar ddechrau'r ddogfen hon yn dynodi pryd y cafodd ei diweddaru ddiwethaf.**

I gael rhagor o wybodaeth am wahanol agweddau ar y refferendwm, cysylltwch ag Owain Roberts (**owain.roberts@wales.gov.uk**)**, neu** Alys Thomas (**alys.thomas@wales.gov.uk**), Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

**10/2731 Owain Roberts ac Alys Thomas**

**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@wales.gov.uk**

[24] Datganiad Cabinet gan Lywodraeth Cymru, *Cyfnod y refferendwm*, 16 Rhagfyr 2010